O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 517 (Cy. 122)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 ("Gorchymyn 2018"). Mae Gorchymyn 2018 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gofyniad i gael cymeradwyaeth ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, ac archiadau i'w mabwysiadu, o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ("Deddf 2010").

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn mewnosod darpariaeth ddehongli yn erthygl 2 o Orchymyn 2018 (dehongli) sy'n ei gwneud yn glir nad yw datblygu a ganiateir, sef datblygiadau y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt yn rhinwedd gorchmynion datblygu a gorchmynion datblygu lleol yn unol ag adran 58(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w ystyried fel gwaith sydd wedi cael caniatâd cynllunio at ddibenion yr eithriadau yn erthyglau 3 i 6 o Orchymyn 2018.

Effaith hyn yw y bydd yn ofynnol i waith adeiladu sydd â goblygiadau o ran draenio, sydd hefyd yn ddatblygu a ganiateir ac sydd ar ddarn o dir sy'n mesur 100 metr sgwâr neu fwy, gael cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo, yn unol â darpariaethau Gorchymyn 2018.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 4 o Orchymyn 2018 (eithriadau i'r gofyniad i gael cymeradwyaeth: caniatâd cynllunio heb fod yn ofynnol). Mae'n mewnosod paragraff (3) newydd sy'n darparu nad yw'n ofynnol i ddatblygiadau brys a ganiateir o dan Ran 3A, Rhan 12A a Rhan 37 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, gael cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 517 (Cy. 122)

# Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed* *18 Mai 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 19 Mai 2020*

*Yn dod i rym* *9 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 32 a 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**) a pharagraff 7(4)(c) o Atodlen 3 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw'r Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020 a daw i rym ar 9 Mehefin 2020.

**Diwygio Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018**

**2.** Mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**Diwygio erthygl 2 (dehongli)**

**3.** Yn erthygl 2, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyr "caniatâd cynllunio" yw caniatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**) ond nid yw'n cynnwys y datblygiadau hynny a ganiateir y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt

(**1**) 2010 p. 29. Mae diwygiadau i Atodlen 3 ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1074 (Cy. 224)).
(**3**) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 p. 8.

naill ai yn rhinwedd gorchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn unol ag adran 58(1)(a) o'r Ddeddf honno."

**Diwygio erthygl 4 (eithriadau i'r gofyniad i gael cymeradwyaeth: caniatâd cynllunio heb fod yn ofynnol)**

**4.** Yn lle erthygl 4 rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw'r gofyniad i gael cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 yn gymwys i waith adeiladu pan na fo'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu.

(2) Nid yw'r eithriad ym mharagraff (1) yn gymwys pan fo'r gwaith adeiladu yn cynnwys adeiladu adeilad neu strwythur arall ar ddarn o dir sy'n mesur 100 metr sgwâr neu fwy.

(3) Nid yw'r gofyniad i gael cymeradwyaeth o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 yn gymwys i'r datblygiadau o dan y Rhannau a ganlyn o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**1**)—

(a) Rhan 3A (Adeiladu Dros Dro a Newid Defnydd at Ddibenion Argyfwng Iechyd y Cyhoedd)(**2**);

(b) Rhan 12A (Datblygu Brys gan Awdurdodau Lleol)(**3**); a

(c) Rhan 37 (Datblygu Brys gan y Goron)(**4**)."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
18 Mai 2020

(**1**) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418).

(**2**) Mewnosodwyd Rhan 3A gan erthygl 2(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/420 (Cy. 90)).

(**3**) Mewnosodwyd Rhan 12A gan erthygl 2(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/367 (Cy. 82)).

(**4**) Diwygiwyd Rhan 37 gan O.S. 2006/1282 ac O.S. 2006/1386 (Cy. 136).